# Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Hawdd ei ddeall

Mehefin 2016







Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**
**Swyddfeydd y Llywodraeth**
**Rhydycar**
**Merthyr Tydful**
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol:


**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ebost:** cssiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.aggcc.org.uk

**Ffôn:** 0300 062 8163
**Ebost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

**Gwefan y Gydarolygiaeth:** www.arolygucymru.com


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27822 ISBN digidol 978-1-4734-6943-3



Mae'r ddogfen Hawdd ei Darllen hon yn hir iawn.





Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael yr holl wybodaeth am arolygiad eu gwasanaethau.



Os ydych chi am wybod am bethau da, edrychwch am y bocsys gwyrdd.



Os ydych chi am wybod beth sydd angen ei newid, edrychwch am y bocsys pinc.



# Cynnwys


Cyflwyniad 3



Sut wnaethon ni'r gwaith 6



Diolch 11

Cyngor Torfaen 12

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 48




# Cyflwyniad



Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.



Rydyn ni'n gwirio a yw cynghorau lleol yn helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaetha gofal a chymorth yn:



- gweithio'n dda



- o safon dda




- diogel



Gofynnon ni gwestiynau am bob un o'r 22 cyngor lleol.




Aethon ni i weld 6 chyngor lleol.




Rydyn ni wedi ysgrifennu:




- adroddiad Cymru gyfan



- adroddiad ar gyfer pob un o’r 6 chyngor lleol

**Dyma'r adroddiad am Dorfaen.**



Gweithion ni'n agos â:

- Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a'r Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Gwnaethon nhw ein helpu ni i wirio sut mae gwasanaethau cymdeithasol a iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.




Mae'r adroddiad hwn yn dweud:




- beth wnaethon ni ei ddarganfod



- beth rydyn ni'n meddwl y mae angen i Gyngor Torfaen a'r Bwrdd Iechyd ei wneud




# Sut wnaethon ni'r gwaith



Roedden ni am gael yr atebion i 3 chwestiwn:




1. A yw Cyngor Torfaen a'r Bwrdd Iechyd yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol?

2. Pa mor dda y mae Cyngor Torfaen a'r Bwrdd Iechyd am:




- roi gwybodaeth, cyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal




3. A oes gan Gyngor Torfaen a'r Bwrdd Iechyd weledigaeth glir, ac yw pobl eraill yn cefnogi'r weledigaeth honno?




Dyma beth wnaethon ni i gael yr atebion.




Edrychodd AGGCC a r Gyngor Torfaen.




- Llenwodd Cyngor Torfaen holiaduron i ni.




- Edrychon ni ar adroddiadau arolygiadau am wasanaethau yn Nhorfaen.




- Siaradodd Pobl yn Gyntaf Cymru gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan â'u haelodau a phobl eraill yn Nhorfaen. Dywedon nhw wrthon ni beth ddywedodd pobl.




- Treulion ni bythefnos yn Nhorfaen.



- Aethon ni edrych ar ffeiliau 20 o bobl



- Aethon ni darganfod mwy am 9 o’r bobl hynny



- Aethon ni siarad â staff, cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau gwirfoddol



- Aethon ni i Gyfarfod Cynllunwyr Strategaeth Gwent a gwrando ar bobl ag anableddau dysgu yn siarad am y Strategaeth.




- Aethon ni sgwrs gan Gyngor Torfaen a’r Bwrdd Iechyd am y ffordd y maen nhw’n gweithio gyda'i gilydd.

Edrychodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y Bwrdd Iechyd.



- Cawson ni wybod am 4 person sy'n cael cymorth y mae gofal iechyd a chymdeithasol yn talu amdano.



- Edrychon ni ar eu ffeiliau. Siaradon ni gyda gweithwyr proffesiynol. Gwnaethon ni gwrdd â'r bobl a'u teuluoedd.




- Siaradon ni â staff iechyd a rheolwyr yn y Bwrdd Iechyd yn cynnwys rhywun o'r tîm diogelu




- Cawson ni gyfarfod gyda'r tîm iechyd cymunedol



- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Torfaen gyflwyniad i ni am y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.




# Diolch




Rhoddodd llawer o bobl eu hamser, eu help a'u syniadau. Rydyn ni am ddweud diolch i:



- bobl ag anableddau dysgu



- rhieni a gofalwyr




- staff a rheolwyr



- darparwyr gwasanaethau



- partneriaid, yn enwedig mudiadau gwirfoddol

# Cyngor Torfaen

## Ynglŷn â Chyngor Torfaen




Mae tua 91,000 o bobl yn byw yn Nhorfaen.




Rydyn ni'n meddwl bod tua 1,671 o oedolion ag anableddau dysgu yn Nhorfaen.




Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen yn gwybod am 345 o oedolion ag anableddau dysgu.




- Mae gan 276 o bobl reolwr achos




- Cafodd Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen wybod am 31 o'r bobl hyn y llynedd.




- Mae 274 o bobl yn cael gwasanaeth drwy Wasanaethau Cymdeithasol Torfaen.




- Mae 29 o bobl yn byw mewn cartref gofal




- Mae 37 o bobl yn 65 oed neu'n hŷn

Mae'r Cyngor yn rhan o:

- Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent. Mae hon yn bartneriaeth o bobl ag anableddau dysgu, 5 cyngor lleol, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a mudiadau gwirfoddol.

- Cydweithredfa Gwella’r De Ddwyrain (SEWIC). Mae hon yn bartneriaeth o 10 cyngor lleol.

## Pethau da am yr hyn y mae Cyngor Torfaen yn ei wneud



Dyma rai pethau da am Gygnor Torfaen:



- Mae'r Cyngor yn dda am gefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.



- Mae'r Cyngor yn gwrando ar bobl ag anableddau dysgu.



- Mae pobl ag anableddau dysgu yn dweud wrth y Cyngor beth ddylai blaenoriaethau'r Cyngor fod.



- Mae'r Cyngor wedi bod yn dda am weithio gyda phobl pan fyddan nhw’n gwneud newidiadau.



- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu eu bod nhw’n hapus gyda'u cymorth.



- Mae bywydau rhai pobl yn llawer gwell oherwydd cymorth y Cyngor.



- Mae staff yn hoffi gweithio i’r Cyngor a gyda’r Cyngor.



- Mae darparwyr gwasanaeth yn hoffi gweithio gyda'r Cyngor.



- Mae staff Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.




- Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'n dda gyda'i gilydd.




- Mae pobl yn rhan o'u cymunedau.




- Mae staff yn cynllunio ymlaen llaw i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth cywir.




- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol a thai yn gweithio’n dda gyda'i gilydd.



## Gweledigaeth a newid





Mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae gan y Cyngor Fwrdd Trawsnewid i sicrhau bod gwasanaethau yn Nhorfaen yn newid i gyd-fynd â'r weledigaeth honno. Mae'r Bwrdd Trawsnewid yn cael ei redeg gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion. Ei waith yw gwneud cynlluniau ar gyfer newidiadau sydd eu hangen yn ystod y 12 mis nesaf.

Er enghraifft:



- Bydd pawb yn cael cymorth sy'n eu helpu i fod yn fwy annibynnol. Mae hyn yn golygu y bydd rhai pobl yn stopio cael cymorth gan wasanaethau anableddau dysgu. Byddan nhw'n cael cymorth gan wasanaethau cyffredinol a'u cymuned yn lle hynny.



- Nid yw pobl yn cael gormod neu rhy ychydig o ofal a chymorth.



- Mae mwy o gyfleoedd ar gyfer pethau i'w gwneud yn ystod y dydd.




- Gall pobl fyw yn rhywle gyda'u drws ffrynt eu hunain os mai dyna beth maen nhw’n gofyn amdano.




Mae'r weledigaeth wedi ei hysgrifennu yn Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent. Dywedodd pobl ag anableddau dysgu beth oedd angen ei roi yn y weledigaeth. Maen nhw hefyd yn gwirio os yw'r gwasanaethau yn gwneud beth mae'n ei ddweud yn y Strategaeth.




Mae'r Strategaeth yn gorffen yn 2017. Mae cael Strategaeth wedi bod yn dda. Rydyn ni'n credu y bydd gwaith Cyngor Torfaen yn gryfach os oes Strategaeth arall pan fydd yr un yma yn gorffen.




Mae Cyngor Torfaen wedi ysgrifennu cynlluniau lleol. Mae angen mwy o fanylion yn y cynlluniau i'w gwneud yn haws i wirio a yw'r cynlluniau yn gweithio.



Mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith i wneud yn siŵr y gall pobl gael ffrindiau a pherthnasoedd.



Gweithiodd y Cyngor yn galed i roi gwybodaeth i bobl am y newidiadau, i wrando ar bobl ac i gefnogi pobl i ddweud eu dweud. Mae rhai pobl ddim yn derbyn y newidiadau o hyd.




Mae angen i Gyngor Torfaen wirio sut mae'r newidiadau wedi effeithio ar fywydau pobl.



Mae'r Cyngor yn gweithio yn barod gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Mae mwy o waith i'w wneud.




Mae'r uwch reolwyr yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod pawb yn cofio hawliau a phwysigrwydd pobl ag anableddau dysgu.



Byddai cynghorwyr yn hoffi mwy o gyfleoedd i gwrdd â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau anableddau dysgu.



Gallai'r Cyngor wneud mwy i gynnig swyddi a phrentisiaethau i bobl ag anableddau dysgu.




## Cynlluniau pobl




Mae llawer o bethau da am gynlluniau pobl. Er enghraifft:



- Mae rheolwyr gofal yn ceisio cefnogi pobl i feddwl am eu nodau mewn bywyd, ac i ddod o hyd i ffyrdd i gyflawni eu nodau.



- Mae cynlluniau yn dweud beth mae pobl yn dda am wneud.




- Mae pobl yn teimlo bod eu bywydau yn bwysig.



- Mae pobl yn dod yn fwy annibynnol.



- Roedd cynlluniau yn dangos sut mae pobl yn cael eu cefnogi i gymryd risgiau yn ddiogel fel y gallan nhw gyflawni eu nodau.




Mae angen i'r cynlluniau gael mwy o fanylion i'w gwneud yn haws i wirio a yw'r cynllun yn gweithio.



Mae angen cynllun wrth gefn ar bobl sy'n byw gyda gofalwyr teuluol hŷn rhag ofn y bydd angen gofal a chymorth ychwanegol arnyn nhw, neu ofal a chymorth gwahanol.



Mae Cyngor Torfaen yn gwneud gwaith da yn gwneud cynlluniau gyda phobl ifanc sy'n dod yn oedolion. Maen nhw'n meddwl am addysg, hyfforddiant a gwaith. Maen nhw'n meddwl am iechyd pobl hefyd.



Weithiau mae person ag anableddau dysgu am fod yn fwy annibynnol, ond mae ei ofalwr yn ei chael yn anodd i adael iddo fod yn fwy annibynnol.



Mae rhai pobl yn meddwl bod eu cynllun yn gynllun ar gyfer eu gweithiwr cefnogi yn fwy na chynllun iddyn nhw.




**Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd**




Mae Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent yn cyd-fynd yn dda â'r Ddeddf newydd.




Mae cynllun Torfaen am sut i wneud beth mae'r Strategaeth yn ei ddweud yn cyd-fynd yn dda â'r Ddeddf newydd hefyd.



Mae angen i reolwyr wneud yn siŵr:




- bod pawb yn gwybod am y Ddeddf



- bod darparwyr gwasanaethau yn deall sut i newid i gyd-fynd â'r Ddeddf



Mae dal i fod angen i'r rhan fwyaf o staff ddeall sut i newid i gyd-fynd â'r Ddeddf.



Mae'r tîm anableddau dysgu cymunedol â’r syniadau iawn yn barod, felly dylen nhw ei chael yn hawdd i wneud beth mae’r Ddeddf yn ei ddweud.




Mae angen i Gyngor Torfaen wneud yn siŵr bod gan Dorfaen wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl nad oes angen cynllun gofal arnyn nhw.




## Cydweithio



Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n dda yn y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol. Mae hyn yn haws oherwydd eu bod nhw yn yr un swyddfa.




Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ar y cyfan. Mae problemau pan fydd pobl yn gwneud cais am Ofal Iechyd Parhaus.



Mae’r Cyfarwyddwr am i bob rhan o'r Cyngor weithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ag anableddau dysgu. Mae tai, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gyrfaoedd yn gweithio gyda'i gilydd yn barod.

Mae'r Cyfarwyddwr am i Gyngor Torfaen weithio gyda Chydweithredfa Gwella’r De Ddwyrain (SEWIC) a Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent.



## Cael llais



Siaradodd pobl ag anableddau dysgu gyda ni. Roedden nhw’n hapus ar y cyfan am eu cymorth. Roedden nhw eisiau mwy o gymorth i gael ffrindiau a pherthnasoedd.



Mae gan y Cyngor sawl ffordd o wrando a siarad gyda phobl ag anableddau dysgu:



- Pobl yn Gyntaf Torfaen



- Y Pwyllgor Cyfleoedd Dydd




- Fforwm Cynllunwyr Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent




- Ymgynghoriadau am newidiadau i wasanaethau

- Radio Able



- Gwneud DVDs, fel y DVD 'My Own Front Door'



Mae pobl ag anableddau dysgu yn helpu i gyfweld staff.




Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut maen nhw wedi defnyddio beth mae pobl yn ei ddweud i wneud penderfyniadau.



Pan fydd Cyngor Torfaen yn ysgrifennu cynllun ar gyfer dewis, prynu a gwirio gwasanaethau, mae angen i'r Cyngor wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.




Mae Fforwm Cynllunwyr Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent yn lle y mae pobl ag anableddau dysgu yn gwirio bod cynghorau lleol, y Bwrdd Iechyd a sefydliadau gwirfoddol yn gwneud beth mae'r Strategaeth yn ei ddweud.

Mae Pobl yn Gyntaf Torfaen yn darparu:




- ffordd i'r Cyngor ymgynghori â phobl ag anableddau dysgu




- rhywun i siarad ar eich rhan pan nad ydych chi'n gallu gwneud penderfyniad dros eich hun



- 10 awr yr wythnos pryd y gall eiriolwr gefnogi rhywun ag anableddau dysgu i ddatrys problemau



Mae gweithwyr cymdeithasol yn meddwl bod pobl ag anableddau dysgu yn Nhorfaen angen mwy o gefnogaeth eiriolaeth.

Mae gan ofalwyr lais drwy Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan.



Mae staff am gael llais hefyd.



**Staff**

Mae staff eisiau:



- helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau



- gwrando ar bobl ag anableddau dysgu



Mae staff yn y tîm anableddau dysgu cymunedol yn hapus. Maen nhw'n cael cymorth gan eu rheolwyr. Maen nhw'n gallu mynd ar hyfforddiant.



## Gwasanaethau



Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu hannog i fod yn fwy annibynnol.



Mae dewis o gyfleoedd dydd, ond mae mwy o bobl eisiau gwaith â thâl.




Mae'r Cyngor a grwpiau gwirfoddol yn ceisio dechrau busnesau newydd lle y gall pobl ag anableddau dysgu weithio.



Mae cynlluniau i fwy o bobl gael eu cartref eu hunain, gyda'u drws ffrynt eu hunain.



Nid oes gan Dorfaen y gwasanaethau iawn ar gyfer pobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad.

Mae'n rhaid i rai pobl fyw yn bell o gartref. Mae Cyngor Torfaen yn gweithio gyda SEWIC i ddod o hyd i ffyrdd i ddod â nhw yn ôl i Dorfaen.



## Gofalwyr teuluol



Mae rhai gofalwyr teuluol yn credu eu bod nhw'n cael cyngor a chymorth da. Mae rhai gofalwyr teuluol yn llai hapus.



Gall rhai gofalwyr teuluol fod yn llai hapus oherwydd eu bod nhw'n ei chael yn anodd gweld person maen nhw'n gofalu amdano yn ceisio dod yn fwy annibynnol.





Mae gofalwyr teuluol yn cael cynnig asesiad i weld pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr yn dewis peidio â chael asesiad.




Mae llai na 10 o ofalwyr yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol i gael cymorth iddyn nhw eu hunain fel gofalwyr teuluol.



## Gwirio ansawdd



Mae gwirio ansawdd yn golygu cael ffordd i wirio a yw ffeiliau a gwasanaethau pobl yn dda.



Mae ffeiliau rhai pobl yn cael eu gwirio pan fydd staff yn cael goruchwyliaeth. Mae angen i Gyngor Torfaen gael ffordd o wirio a yw'r holl ffeiliau yn cael eu gwneud yn dda.




Mae rheolwyr gofal yn defnyddio ffurflenni adborth y gwasanaeth i wirio gwasanaethau. Maen nhw'n anfon y ffurflenni at y tîm sy'n dewis, prynu a gwirio'r gwasanaethau.



Mae angen i reolwyr wneud yn siŵr bod pawb yn cofio ei bod yn bwysig i wirio ansawdd ffeiliau a gwasanaethau pobl.




## Cadw pobl yn ddiogel



Mae staff yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n credu y gallai rhywun fod mewn perygl o gael ei gam-drin.





Nid oes gan lawer o bobl gynlluniau amddiffyn oedolion yn ogystal â'u cynllun gofal.



Mae mwy o staff wedi cael eu hyfforddi ac yn deall y cyfreithiau am




- beth i'w wneud os na all rhywun wneud ei benderfyniad ei hun




- beth i'w wneud os bydd angen cyfyngu ar ryddid rhywun fel rhan o'i gadw'n ddiogel



Mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith i wneud yn siŵr bod staff yn defnyddio'r cyfreithiau hyn i helpu pobl i aros yn ddiogel.



Ni all rhai pobl sy'n byw mewn llety â chymorth wneud eu penderfyniadau eu hunain.




Mae 124 o bobl yn aros i'r Cyngor wneud cais i'r llys i wneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth yn benderfyniadau da iddyn nhw.



Weithiau nid yw rheolwyr gofal yn gwirio a all rhywun wneud ei benderfyniadau ei hun am ofal a chymorth.




## Cymuned a Chysylltwyr Cymunedol




Mae pobl ag anableddau dysgu yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol.



Mae Cyngor Torfaen wedi sefydlu Cysylltwyr Cymunedol. Cynllun newydd yw hwn. Mae Cysylltwyr Cymunedol yn bobl sy'n gweithio gyda'r gymuned leol.



Mae Cysylltwyr Cymunedol:




- yn cael gwybod am weithgareddau yn y gymuned

- yn helpu i wneud y gymuned yn gryfach



- yn helpu i greu cyfleoedd cymunedol newydd




Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi pobl, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, i gael gwell cymorth a gwneud mwy o weithgareddau yn eu cymuned leol.




Mae rhestr aros i ddefnyddio'r cynllun Cysylltwyr Cymunedol.



Efallai y bydd angen i'r Cyngor wario arian ar y cynllun Cysylltwyr Cymunedol.



**Hyfforddiant**



Mae'r staff wedi cael hyfforddiant Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Person.



Gall staff fynd ar hyfforddiant Cyngor Torfaen hyd yn oed os ydyn nhw’n gweithio i sefydliad arall.




Nid yw pobl ag anableddau dysgu yn cael dweud eu dweud llawer am yr hyfforddiant.



Nid yw'r Cyngor yn gwirio a yw'r hyfforddiant yn gwneud gwahaniaeth.




## Arian



Yn y gorffennol, mae'r gwasanaethau anableddau dysgu wedi gwario mwy o arian nag oedd yn eu cyllideb.



Roedd llawer o'r pecynnau gofal yn rhy fawr. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl fod yn fwy annibynnol. Roedd ychydig o becynnau gofal yn rhy fach.



Gall pobl gael hyd at 28 diwrnod o ofal seibiant. Yn y gorffennol roedd yn fwy.



Eglurodd y Cyngor pam, ond nid oedd rhai pobl yn derbyn y rhesymau. Mae'r newid yn golygu bod grwpiau fel 'Wednesday Warriors' yn cael mwy o arian yn awr.



Mae'r Cyngor yn arbed arian ar staff. Maen nhw’n defnyddio mwy o staff sy'n anghymwys. Nid ydyn nhw’n llenwi swyddi gwag ar unwaith.



Mae'r Cyngor wedi ceisio amddiffyn y Gwasanaethau Cymdeithasol rhag toriadau.



Mae pobl ag anableddau dysgu yn disgwyl i wasanaethau wneud llawer iddyn nhw. Mae angen i bobl feddwl mwy am ddysgu i wneud pethau drostyn nhw eu hunain.




## Gwybodaeth



Mae'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth ar y rhyngrwyd.

Mae rheolwyr yn gweithio gyda Phobl yn Gyntaf Torfaen i wneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol yn cael gwybodaeth y gallan nhw ei deall. Mae angen gwneud rhagor o waith ar hyn.






Mae pobl yn aml yn gofyn i'w gweithwyr cymorth am wybodaeth. Maen nhw'n meddwl bod gwybodaeth y Cyngor yn anodd ei defnyddio.



Weithiau mae pobl yn cael y wybodaeth gywir. Maen nhw'n gallu deall y wybodaeth, ond nid ydyn nhw'n ei derbyn oherwydd nid ydyn nhw'n ei hoffi.



**Cyfathrebu**





Ychydig o bobl yn Nhorfaen sy'n siarad Cymraeg, ac mae bron neb eisiau gwasanaethau yn Gymraeg.




Mae'r Cyngor yn deall Deddf yr Iaith Gymraeg ac yn paratoi i wneud beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud.




Mae Cyngor Torfaen yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg i staff, ond ychydig o staff sy'n dewis mynd.




Mae gan y Cyngor ddehonglwyr a staff wedi'u hyfforddi ar gyfer pobl sydd am ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, Makaton neu Braille.



Mae ffeiliau a chynlluniau gofal rhai pobl â Picture Exchange Communication neu Makaton. Mae angen hyn ar fwy o bobl.

## Beth mae angen i Gyngor Torfaen ei wneud



- Cadw i wrando a gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.




- Gwirio sut mae newidiadau i wasanaethau wedi effeithio ar bobl.



- Gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol i:



    - ddarparu gwasanaethau anableddau dysgu



- datblygu gwasanaethau sy'n helpu pobl i ofalu am eu hunain



- darparu gwasanaethau sy'n gwneud y gymuned yn gryfach



- Meddwl am yr adolygiad o Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent.



- Gwneud yn siŵr eu bod yn gwirio ansawdd ffeiliau a gwasanaethau pobl, a dweud wrth y bobl sy'n rhedeg y Cyngor.



TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

- Meddwl am gynnig swyddi a phrentisiaethau i bobl ag anableddau dysgu.




**Rhaid i Gyngor Torfaen ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Dylai Cyngor Torfaen anfon copi o'u cynllun aton ni.**



**Byddwn ni'n gwirio a yw Cyngor Torfaen yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud yn ei gynllun.**

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd




Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhedeg gwasanaethau iechyd yn Nhorfaen.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhedeg gwasanaethau iechyd sydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn unig, gan gynnwys:




- tîm iechyd sy'n rhan o Dîm Anableddau Dysgu Cymunedol Torfaen



- Gwasanaeth Ymyrraeth Gymunedol Ddwys



- therapi teulu



- therapi celf



- ffisiotherapi anableddau dysgu arbenigol



- gwasanaeth cyswllt iechyd. Mae hyn yn gwneud yn siŵr fod pobl ag anableddau dysgu yn cael gofal iechyd da gan wasanaethau y gall unrhyw un eu defnyddio, fel y meddyg teulu neu driniaeth canser.

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan o Is-adran Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd.



**Pethau da am wasanaethau iechyd yn Nhorfaen**



- Dywedodd pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol eu bod nhw’n hapus iawn gyda'r gofal a'r cymorth y maen nhw’n ei gael.



- Mae'r tîm iechyd yn gweld beth sydd angen ei wneud ac yn ei wneud. Nid ydyn nhw’n aros i rywun ddweud wrthyn nhw beth i'w wneud.



- Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.




- Mae gwasanaethau da i helpu pobl i gael bywydau mwy iach.




- Mae'r tîm iechyd yn cymryd rhan mewn ymchwil am sut i wella bywydau pobl.



- Mae rhai pobl yn cael technoleg iechyd, er enghraifft iPad, i'w helpu i gyfathrebu.



- Mae pobl yn gwrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



## Trefnu a chynllunio



Mae gan y rhan fwyaf o'r staff a rheolwyr weledigaeth ar gyfer y math o ofal a chymorth y maen nhw am ei ddarparu.




Mae staff yn gwybod sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent.



Nid yw'n edrych fel bod neb yn cynllunio beth sy'n digwydd pan fydd y Strategaeth yn gorffen yn 2017.




Helpodd y tîm iechyd i brofi ffordd newydd o wneud yn siŵr bod pobl yn fwy iach. Edrychon ni ar dai a bywyd cymdeithasol pobl, nid yn unig eu hiechyd. Helpodd hyn nhw i ddod o hyd i ffyrdd gwell o wella bywydau pobl.




Mae’r tîm iechyd yn anfon holiadur neu’n ffonio’r person pan fydd y person yn gorffen defnyddio gwasanaeth.



Mae'r rheolwr yn bwriadu edrych ar yr holiaduron a phenderfynu a oes angen newid y gwasanaethau.




Mae'r tîm iechyd yn gweithio i ddiogelu hawliau pobl.



Nid ydyn ni’n siŵr a yw’r Bwrdd Iechyd a Chyngor Torfaen yn gwneud yn siŵr bod hawliau pobl yn cael eu diogelu i bobl sy'n byw mewn gwasanaethau iechyd preswyl.

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd:



- weithio allan pa wasanaethau mae eu hangen ar bobl



- cynllunio sut i ddarparu'r gwasanaethau hyn




- gwirio a yw bywydau pobl yn well oherwydd y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu




- dechrau cynllunio gyda Chyngor Torfaen ar gyfer pryd mae Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent yn gorffen yn 2017



Gall fod yn anodd i:



- gael yr offer cywir;




- gwneud cais am Ofal Iechyd Parhaus



Mae dadleuon yn aml am a ddylai rhywun gael Gofal Iechyd Parhaus. Mae hyn yn cymryd amser staff.




## Cydweithio



Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n dda yn y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol. Maen nhw'n dweud wrth ei gilydd os gallai rhywun ag anableddau dysgu fod angen sgiliau a chymorth rhywun arall.





Mae'r tîm iechyd a'r tîm gofal cymdeithasol yn yr un swyddfa. Maen nhw'n cynnal cyfarfodydd gyda'i gilydd.



Mae'r tîm iechyd yn gweithio'n dda gyda darparwyr gwasanaethau anableddau dysgu, meddygon teulu, deintyddion, ysbytai a gwasanaethau iechyd eraill.



Mae dwy nyrs yn gweithio gyda'r ysbytai i wneud yn siŵr bod staff yr ysbyty yn gwybod sut i roi cymorth da i bobl ag anableddau dysgu.





Nid yw iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu ffeiliau pobl. Mae Iechyd yn cadw ffeiliau pobl ar bapur. Mae'r Cyngor yn cadw ffeiliau ar gyfrifiaduron. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i rannu gwybodaeth am bobl. Mae'r staff yn siarad â'i gilydd, felly nid yw hyn yn achosi problemau mawr.




## Cynlluniau pobl




Mae gan bobl gynlluniau da. Mae pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am ofal a chymorth.



Os yw pobl yn dewis peidio â mynd i gyfarfodydd, bydd rhywun yn dweud wrthyn nhw beth ddigwyddodd.



Mae nyrsys cymunedol yn gweithio gyda phobl ifanc i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y cymorth iechyd cywir pan fyddan nhw'n oedolion.



**Llais**

Mae gan bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol lais am:




- eu gofal a'u cymorth eu hunain



- siarad am y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio



- gwneud newidiadau i wasanaethau




- Strategaeth Anableddau Dysgu Gwent



Mae rhai pobl yn cael technoleg iechyd, er enghraifft iPad, fel y gallan nhw gael llais a chyfathrebu.



**Staff**



Mae staff wir eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.



Mae staff yn gwerthfawrogi ei gilydd. Maen nhw'n teimlo bod y rheolwyr yn eu gwerthfawrogi hefyd.



Mae staff am i uwch reolwyr wneud yn siŵr y bydd digon o staff yn y dyfodol. Dywedodd uwch reolwyr wrthon ni beth maen nhw wedi bod yn ei wneud am hyn.




## Cadw pobl yn ddiogel



Mae staff iechyd yn dda am gadw pobl yn ddiogel.




Nid yw rheolwyr yn y Bwrdd Iechyd bob amser yn gwybod beth mae'r tîm iechyd cymunedol yn ei wneud i gadw pobl yn ddiogel.



## Gwasanaethau iechyd preswyl

**Mae gwasanaeth iechyd preswyl yn dŷ lle mae nyrsys yn gofalu am bobl.**



Mae rhai wardiau yn Ysbyty Llanfrechfa Grange wedi cau. Symudodd rhai pobl oedd yn arfer byw yno i wasanaethau iechyd preswyl. Dywedodd y staff ei bod yn anodd helpu pobl i symud allan o'r gwasanaeth iechyd preswyl.



Mae cyfraith y mae'n rhaid ei defnyddio os bydd angen cyfyngu ar ryddid rhywun.



Roedden ni'n poeni bod rhai o'r bobl hyn yn cael eu rhyddid wedi'i gyfyngu, ac efallai bod y gyfraith wedi cael ei thorri.



Aethon ni i weld dau o'r gwasanaethau iechyd preswyl.



Ni wnaethon ni weld bod y gyfraith DoLS wedi cael ei thorri. Ond gwelon ni rai problemau difrifol eraill.



Anfonon ni lythyr at y Bwrdd Iechyd yn dweud wrthyn nhw beth welon ni.




Ysgrifennodd y Bwrdd Iechyd yn ôl a dweud wrthon ni sut oedden nhw'n datrys y problemau.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn datrys y problemau.

# Beth mae angen i'r Bwrdd Iechyd ei wneud






- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynllunio sut y maen nhw'n gwario arian ar wasanaethau. Mae hyn yn golygu cael gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen ar bobl yn awr, a pha wasanaethau y bydd eu hangen arnyn nhw yn y dyfodol.





- Dylai'r Bwrdd Iechyd feddwl am eu systemau i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod am y gwaith y mae'r tîm iechyd yn ei wneud pan maen nhw'n meddwl y gallai rhywun fod yn anniogel.




- Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Torfaen i wneud yn siŵr



- bod pobl yn cael yr offer cywir pan fyddan nhw ei angen




- bod cynlluniau ar gyfer pan fydd y Strategaeth yn gorffen yn 2017




- bod gwneud cais am Ofal Iechyd Parhaus yn gweithio'n well






- **Brys:** Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Torfaen i wneud yn siŵr bod pobl sy'n byw mewn gwasanaethau iechyd preswyl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, ac yn gallu symud allan a byw yn rhywle arall gyda'r cymorth iawn os ydyn nhw am wneud hynny.



**Mae gan y Bwrdd Iechyd bythefnos i ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd anfon y cynllun i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**




**Rhaid i'r cynllun ddweud**




- **beth fydd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud am y pethau yn yr adroddiad hwn**




- **pryd fyddan nhw'n ei wneud**

**Dylai'r Bwrdd Iechyd wirio nad yw'r un problemau yn digwydd yn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru pan fyddan nhw wedi gwneud beth mae'n ei ddweud yn y cynllun.**